

MEMORANDWM CYDSYNIAD DEDDFWRIAETHOL

BIL IAITH ARWYDDION PRYDAIN

1. Gosodir y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol hwn o dan Reol Sefydlog ("RhS") 29.2. Mae Rheol Sefydlog 29 yn rhagnodi bod yn rhaid gosod Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol, a chaniateir cyflwyno Cynnig Cydsyniad Deddfwriaethol, gerbron Senedd Cymru os yw Bil Seneddol y DU yn gwneud darpariaeth mewn perthynas â Chymru at unrhyw ddiben o fewn cymhwysedd deddfwriaethol Senedd Cymru, neu sy'n addasu cymhwysedd deddfwriaethol Senedd Cymru.
2. Cafodd Bil Iaith Arwyddion Prydain ("y Bil"), Bil Aelod Preifat, ei gyflwyno yn Nhŷ'r Cyffredin ar 16 Mehefin 2021 a daeth Cyfnod Pwyllgor Tŷ'r Cyffredin i ben ar 23 Chwefror 2022. Mae'r Bil fel y cytunwyd yng Nghyfnod Pwyllgor Tŷ'r Cyffredin i'w weld yn: [newbook.book \(parliament.uk\)](https://newbook.book.parliament.uk).

Amcanion polisi

3. Amcanion polisi datganedig y Bil yw hyrwyddo a hwyluso'r defnydd o iaith Arwyddion Prydain. Iaith Arwyddion Prydain yw'r prif fath o gyfathrebu ar gyfer bron i 90,000 o drigolion y Deyrnas Unedig, gyda thua 150,000 o ddefnyddwyr i gyd. Nid yw'r eirfa a'r gystrawen yn cyfleu Saesneg llafar ac, yn enwedig lle mae unigolion wedi bod yn Fyddar o enedigaeth neu blentynod cynnar, nid yw is-deitlau neu Saesneg ysgrifenedig yn ddewis amgen digonol gan nad yw iaith Arwyddion Prydain yn fersiwn wedi'i harwyddo o Saesneg ysgrifenedig neu lafar. Mae gan lawer o ddefnyddwyr iaith Arwyddion Prydain sy'n Fyddar oedran darllen a deall is na'r boblogaeth gyffredinol, a gall defnyddwyr yn y Deyrnas Unedig wynebu allgáu cymdeithasol o ganlyniad uniongyrchol i allgáu ieithyddol, sy'n effeithio'n andwyol ar gyflogaeth, addysg a mynediad at ofal iechyd.
4. Cydnabuwyd iaith Arwyddion Prydain fel iaith ynddo'i hun gan Ddatganiad Gweinidogol Ysgrifenedig¹ i Dŷ'r Cyffredin ar 18 Mawrth 2003 gan Mr Andrew Smith AS, yr Ysgrifennydd Gwladol dros Waith a Phensiynau ar y pryd. Roedd hyn yn ceisio rhoi iaith Arwyddion Prydain ar lefel debyg i lawer o ieithoedd brodorol yn y Deyrnas Unedig fel y cydnabyddir gan Siarter Ieithoedd Lleiafrifol Cyngor Ewrop.

¹ <https://publications.parliament.uk/pa/cm200203/cmhansrd/vo030318/wmstext/30318m02.htm>

5. Mae Deddf Cydraddoldeb 2010 yn ei gwneud yn ofynnol i ystod eang o bobl a sectorau wneud 'addasiadau rhesymol'. Felly, efallai y bydd yn ofynnol i sefydliadau'r sector cyhoeddus ddefnyddio iaith Arwyddion Prydain mewn rhai amgylchiadau. Gall sefydliadau'r sector cyhoeddus hefyd ystyried defnyddio iaith Arwyddion Prydain mewn perthynas â Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus.
6. Mae'r Bil yn ceisio helpu i hyrwyddo a hwyluso'r defnydd o iaith Arwyddion Prydain drwy ddarparu cydnabyddiaeth gyfreithiol, tra'n cadw strwythur Deddf Cydraddoldeb 2010.

Crynodeb o'r Bil

7. Bil Aelod Preifat a gefnogir gan Lywodraeth y DU yw'r Bil a gyflwynwyd gan Rosie Cooper AS. Mae cynnwys y Bil wedi'i ddiwygio o'i deitl hir gwreiddiol gyda chytundeb yr AS sy'n noddi.
8. Mae'r Bil yn cynnwys pedwar cymal:
 - (i) Cydnabod iaith Arwyddion Prydain fel iaith ynddo'i hun ym Mhrydain Fawr;
 - (ii) Dyletswydd ar yr Ysgrifennydd Gwladol dros Waith a Phensiynau i adrodd ar hyrwyddo iaith Arwyddion Prydain mewn Adrannau Gweinidogol;
 - (iii) Dyletswydd ar yr Ysgrifennydd Gwladol i gyhoeddi canllawiau ar hyrwyddo a hwyluso iaith Arwyddion Prydain yn gyffredinol; a
 - (iv) Graddau'r cymalau a phryd y bydd y darpariaethau'n cychwyn.

Darpariaethau yn y Bil y mae angen cydsyniad ar eu cyfer

9. Mae darpariaethau canlynol y Bil o fewn cymhwysedd deddfwriaethol Senedd Cymru:
 - Cymal 1: Datganiad yn cydnabod iaith Arwyddion Prydain fel iaith yng Nghymru, Lloegr a'r Alban. Diben y ddarpariaeth hon yw annog cyfle cyfartal sy'n dod o fewn cymhwysedd datganoledig ac sy'n gysylltiedig â dyletswyddau newydd ar yr Ysgrifennydd Gwladol dros Waith a Phensiynau i gyflawni rhwymedigaethau penodol a nodir yng Nghymalau 2 a 3.

- Cymal 2: Dyletswydd yr Ysgrifennydd Gwladol i adrodd ar laith Arwyddion Prydain. Mae'r ddyletswydd yn ymwneud â pharatoi a chyhoeddi adroddiad ar yr hyn y mae Adrannau Llywodraeth y Deyrnas Unedig wedi'i wneud i hyrwyddo a hwyluso'r defnydd o laith Arwyddion Prydain yn eu cyfathrebu cyhoeddus.
- Cymal 3: Dyletswydd yr Ysgrifennydd Gwladol i gyhoeddi canllawiau ar ddefnyddio laith Arwyddion Prydain. Bydd y canllawiau'n canolbwyntio ar:
 - Sut y bydd adrannau'r Llywodraeth yn cydymffurfio â'r cais i adrodd a nodir yng Nghymal 2
 - Gwybodaeth am arfer gorau ar gyfer cyfathrebu â defnyddwyr laith Arwyddion Prydain

Mae is-adran 3(3) yn darparu na ddylai'r canllawiau gynnwys cyngor neu ddeunydd sy'n ymwneud â Chymru yn unig ac nad yw'n ymwneud â materion a gadwyd yn ôl.

10. Mae'r holl ddarpariaethau'n ymwneud â'r cymal cadw 'cyfle cyfartal' yn Atodlen 7A i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 ond maent dod o fewn yr eithriad o ran 'hyrwyddo cyfle cyfartal'. Felly, rydym o'r farn bod y darpariaethau hyn o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd. Felly, ystyrir bod angen cydsyniad deddfwriaethol y Senedd mewn perthynas â'r holl ddarpariaethau uchod.

Rhesymau dros wneud y darpariaethau hyn ar gyfer Cymru ym Mil Iaith Arwyddion Prydain

11. Mae hyrwyddo cyfle cyfartal yn ddyletswydd sy'n dod i ran Llywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru. Cydnabu Llywodraeth Cymru Iaith Arwyddion Prydain yn ffurfiol fel iaith ynddo'i hun ym mis Ionawr 2004, ond nid yw hyn yn cael effaith gyfreithiol. Nid yw'r Bil yn effeithio ar weithrediad unrhyw ddeddfiad neu reol gyfreithiol ac nid yw'n gosod unrhyw rwymedigaethau ar Lywodraeth Cymru nac ar Awdurdodau datganoledig eraill yng Nghymru. Bydd y darpariaethau yn y Bil o fudd i bobl Cymru drwy hwyluso'r defnydd o iaith Arwyddion Prydain gan adrannau Llywodraeth y Deyrnas Unedig, sy'n arfer eu swyddogaethau a gadwyd yn ôl yng Nghymru. Mae'r Bil yn rhoi effaith gyfreithiol i iaith Arwyddion Prydain fel iaith yng Nghymru drwy osod dyletswyddau a rhwymedigaethau ar awdurdodau a gadwyd yn ôl ac ni fyddai dim i atal y Senedd rhag deddfu mewn ffordd debyg i osod dyletswyddau a rhwymedigaethau tebyg ar Awdurdodau datganoledig Cymru.

Goblygiadau ariannol

12. Nid oes unrhyw oblygiadau ariannol i Gymru o ganlyniad i'r Bil hwn.

Casgliad

13. Yn fy marn i, mae'n briodol ymdrin â'r darpariaethau hyn yn y Bil hwn ar gyfer y DU gan fod y Bil yn hyrwyddo cyfle cyfartal mewn ffordd sy'n gymesur â'n safbwynt ni ac nad yw'n cynnig unrhyw ymyrraeth uniongyrchol â swyddogaethau datganoledig. Felly, rwy'n argymhell bod y Senedd yn rhoi ei chydysyniad i gynnwys y darpariaethau hyn yn y Bil.

Jane Hutt AS

Y Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol

8 Mawrth 2022